



Amser Dyn – CA5

Tasg 1: Cymeriadau

Cymeriadau

Rhannau y Byr-olygfeydd

Cyn i chi ddarllen y ddrama, craffwch ar restr ‘Y Cymeriadau’ a rhestr ‘Rhannau y Byr-olygfeydd’.

Wrth wneud, ystyriwch gwestiynau fel:

- Pa fath o gymeriadau rydych chi’n eu gweld o flaen eich llygaid wrth ddarllen y rhestrau?
- Beth yw’r gwahaniaeth rhwng Mrs Williams a Jean Bradshaw, tybed?
- Pa fath o gymeriad yw ‘Gwraig y Weledigaeth’?
- Beth yw arwyddocâd yr oedrannau a nodir weithiau?
- Beth yn fras yw’r gwahaniaeth rhwng natur ‘Y Cymeriadau’ a natur ‘Rhannau y Byr-olygfeydd’

Nodwch ansoddair neu ddau y tybiwch chi sy’n addas i bob cymeriad, neu efallai yr hoffech chi wneud braslun â phensil o rai ohonynt.



Wedi darllen y ddrama, dewch yn ôl at y rhestr hon i ganfod i ba raddau roedd eich rhagdybiaethau chi'n gywir.

- Pa ansoddeiriau y byddech chi'n eu defnyddio bellach?
- Pa fath o fraslun y byddech chi'n ei dynnu?



Amser Dyn – CA5

Tasg 2: Ymchwil

Mae Gwyn Thomas yn rhoi dau ddyfyniad ar ddechrau'r ddrama.

Y naill o *The Tempest* gan Shakespeare a'r llall o *Llyfr y Tri Aderyn* gan Morgan Llwyd

O *The Tempest* (V.i)

Miranda:

O wonder!

How many goodly creature are there here!

How beauteous mankind is! O brave new world

That has such people in't.

Prospero:

'Tis new to thee.

O *Llyfr y Tri Aderyn*

'Amser dyn yw ei gynhysgaeth'



Tasg 1

- Chwiliwch am wybodaeth am ddrama *The Tempest*
- Beth yw prif linydd stori'r ddrama?
- Mae'r dyfyniad 'O brave new world' yn un o'r rhai enwocaf yn yr iaith Saesneg.

Allwch chi ddod o hyd i awduron eraill sydd wedi defnyddio'r geiriau hyn mewn cyd-destunau eraill?

Tasg 2

Cyhoeddwyd *Llyfr y Tri Aderyn* yn y flwyddyn 1653. Mae'n un o glasuron ein llenyddiaeth ni.

Dyma'r teitl yn llawn:

DIRGELWCH i rai iw DDEALL ac i eraill iw WATWAR, sef tri aderyn yn ymddiddan [:] yr ERYR, a'r GOLOMEN a'r GIGFRAN. Neu ARWYDD I ANNERCH Y CYMRU. Yn y flwyddyn mil a chwechant a thair ar ddec a deugain, CYN DYFOD 666.

(Mae arwyddocâd arbennig i'r flwyddyn 666, gan fod yr hen gred draddodiadol yn arfer dweud mai dyma gyfrinair y Diafol.)

Yn y llyfr, ceir ymddiddan rhwng tri aderyn, sef Yr Eryr, Y Gigfran a'r Golomen. Ond ysgrifennwyd y llyfr ar ffurf alegori ac felly, gellir darllen y gwaith mewn sawl ffordd. Ar un olwg, mae'r eryr yn cynrychioli'r Wladwriaeth (dan arweiniad Oliver Cromwell), mae'r gigfran yn cynrychioli'r Eglwys ac mae'r golomen yn cynrychioli'r Piwritaniaid.

Ystyr alegori yw cyfansoddiad o unrhyw fath, boed yn ddarlun neu'n ffilm neu'n ddarn o lenyddiaeth sy'n dwyn ystyr arall ffigurol, h.y. gellir dod o hyd i ystyr o dan y wyneb wrth edrych a darllen yn ofalus.



Trafodaeth Grŵp/Dosbarth

- Allwch chi feddwl am weithiau celfyddydol eraill sy'n alegoriau?
- Mae hanes yr ogof yng ngwaith enwog Platon, *Y Weriniaeth*, yn esiampl enwog, fel y mae *Animal Farm* gan George Orwell; beth allwch chi ei ddarganfod am yr alegoriau hyn?
- Beth am lenyddiaeth Gymraeg?
- Ydych chi wedi darllen rhywbeth yn ddiweddar sydd, yn eich tyb chi, yn alegori?



Amser Dyn – CA5

Tasg 3: Llythyr

Llythyr Ffarwel

Act 2 Golygfa iv (tt. 67-68)

F'annwyl John,

Wedyn y dechreuais i feddwl ac ystyried. Mae hi'n rhy hwyr. Rydym ni'n dau wedi newid gormod. Ond diolch. Yn wir, yn wir diolch iti am ddod â fi'n fyw eto am unwaith neithiwr. Roedd o fel golwg ar wlad bell, rhy bell i fynd yn ôl iddi. 'Fedrwn ni, waeth be' feddylw'n ni, ddim byw ar hen luniau o'r gorffennol. Y mae o drosodd. Y mae hi'n rhaid i minau fynd. 'Ddoi di ddim o hyd imi, felly waeth iti heb â chwilio.

Megan



Saib. Edrych ar y llythyr. Chwerthin yn drist.

'Fedrodd hi erioed ddyblu 'n' yn gywir.

Cyfansoddwch lythyr ffarwel dychmygol rhwng unrhyw ddau gymeriad adnabyddus, ffuglennol.

Gallwch droi at fyd yr opera sebon neu fyd llyfrau neu fyd y chwedlau.

Ceisiwch amrywio rhythm a hyd y brawddegau fel sy'n digwydd yn llythyr Megan. Mae hyn yn ychwanegu at ddrama'r ffarwelio.



Amser Dyn – CA5

Tasg 4: Trafod

Alegori stori'r alarch

Act 1 Golygfa V (t. 34)

JOHN: Pan oeddwn i tua deuddeg. Roeddwn i'n cerdded hyd ochor 'rafon ac yn sbïo i'r dŵr clir. Mi fedret ti weld y graean ar y gwaelod wrth ochor y lan. Roedd yna alarch ar y dŵr, yn mynd yn ara' deg ac yn trochi ei big bob hyn-a-hyn. Dyma fi'n dŵad ar glwmp o hesg a dyma'r alarch yn cyffroi drwyddo ac yn dechrau nofio tuag ata' i. Ac o'r hesg dyma 'na glamp o alarch gwyllt yn dŵad allan gan glecian ei adenydd a'i wddw fo'n chwifio 'run fath â neidr. A dyma fo'n ei gwneud hi amdana' i, yn eitha' cyflym ond yn afrosgo.

MEGAN: Be' wnest ti?

JOHN: Dyma fi'n ei g'leuo hi a'r sŵn 'ma yn yr hesg y tu ôl imi.

MEGAN: Be' ddigwyddodd wedyn?

JOHN: Wedi mynd yn ddigon pell dyma fi'n cael cerrig ac yn ei bledu o, fo a'r un oedd ar y dŵr.



MEGAN: Wel am beth i'w wneud!

JOHN: Ie. Ond dyna wnes i.

MEGAN: Gwarchod eu nyth yr oedden nhw.

JOHN: Ie m'wn. Ymhen hir a hwyr, ar ôl imi orffen taflu cerrig ac i bethau lonyddu.

- Trafodwch y darn hwn o'r ddrama. Oes lle i'w ddehongli fel alegori sy'n cynrychioli rhai o themâu'r ddrama gyfan?